# Adroddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol

# Rheoli Ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

# Ymateb Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru

## 1.0 Cefndir

Daeth Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru i fod ar Ebrill 1af 1999 o uno'r ddwy Ymddiriedolaeth flaenorol sef Ymddiriedolaeth Iechyd Cymuned Gwynedd ac Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Gwynedd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflogi tua 4500 o staff ac mae ganddi incwm cyllidebol o £43 miliwn ar gyfer 2001-2002.

Blaenoriaeth y Bwrdd newydd oedd cynnal gwasanaethau ar lefel yr un mor uchel â'r Ymddiriedolaethau blaenorol. Ar yr un pryd roedd angen sefydlu strwythurau a staff a fyddai'n galluogi newid yn ddidrafferth i ddiwylliant un Ymddiriedolaeth gyda safonau ac amcanion unedig.

Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gynnal lefelau uchel o wasanaeth drwy gyrraedd pedwar prif darged perfformio y Cynulliad Cenedlaethol o ran:

- rhestrau aros
- amseroedd aros ar gyfer ymgynghoriadau cleifion allanol
- triniaethau cleifion mewnol, a
- thriniaethau achosion dydd

Cydnabyddir ein perfformiad fel un o'r rhai gorau yng Nghymru. Mae'r systemau a'r gweithdrefnau rheoli sicr a sefydlwyd yn cael eu hadlewyrchu hefyd yn y modd y llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i sicrhau:

- pob targed ariannol,
- arbedion targed wrth integreiddio

- rheolaeth sicr ar bwysau brys

Sonnir yn aml am y cynnydd da a wnaethpwyd hyd yn hyn gan yr Ymddiriedolaeth yn adroddiadau'r Archwiliad Dosbarth a'u llythyr blynyddol at y Bwrdd.

Er gwaethaf yr hyn a gyflawnwyd mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau'n ymwybodol o'r angen i ddatblygu'n barhaus ac mae'n cydnabod cyfraniad cadarnhaol monitro tuag at sicrhau cynnydd. Roedd yr Ymddiriedolaeth, felly, yn croesawu'r cyfle i fod yn un o'r saith ymddiriedolaeth yr ymwelwyd â hwy fel rhan o arolwg y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) Rheoli Ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru ac i gymryd rhan yn y grwpiau ffocws wedi hynny.

Ar Fawrth 31ain 2001 roedd Ymddiriedolaeth Gogledd Orllewin Cymru'n gyfrifol am reoli tir ac adeiladau gwerth £84 miliwn. Mae'r ystâd yn cynnwys dau ysbyty a thrigain, canolfannau iechyd, gorsafoedd ambiwlans ayb ac mae'n ymestyn dros 1500 milltir sgwâr. Yn unol â'r cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â rheoli ased mor fawr penododd yr Ymddiriedolaeth Gyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Yn ei flwyddyn gyntaf sefydlwyd strwythur, safonau ac amcanion gan y Cyfarwyddwr er mwyn darparu gwasanaeth unedig ledled yr Ymddiriedolaeth gan staff oedd â'r cymwysterau priodol ac addas.

## 2.0 Darganfyddiadau'r Archwiliad

Er nad yn benodol ar ymddiriedolaethau mae adroddiad yr NAO yn rhoi dull defnyddiol o fesur i Ymddiriedolaethau allu cymharu eu perfformiad o ran rheoli ystadau gyda'r arfer gorau ac, yr un mor bwysig, cyrff iechyd eraill. Gwnaethpwyd hyn gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru mewn nifer o feysydd gan gynnwys y canlynol:

- rheolaeth strategol yr ystâd
- gwybodaeth ar gyfer asesu perfformiad rheolaeth yr ystâd
- rheolaeth gyffredinol e.e. daliadaeth eiddo
- perfformiad yr ystâd gan gynnwys:
- cyflwr statudol
- cyflwr ffisegol (gan gynnwys gwaith cynnal a chadw wedi cronni)

- addasrwydd ymarferol
- defnydd
- perfformiad ynni

Mae’r canlyniadau ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn gymysg. Mae meysydd lle bo angen ystyried enghreifftiau o arfer da ynghyd â nifer galonogol o rai lle bo’r Ymddiriedolaeth yn perfformio’n dda. Fel pob adroddiad archwiliad mae’r darganfyddiadau’n cyfeirio at adeg yn y gorffennol ac felly yng ngweddill y ddogfen hon rhoir ystyriaeth i’r meysydd uchod o ran darganfyddiadau’r adroddiad a ddiweddarwyd er mwyn dangos arfer cyfredol yn yr Ymddiriedolaeth.

**3.0 Rheolaeth strategol yr ystâd**

Dosbarthwyd dogfen arweiniol ar ddatblygu strategaeth ystâd i ymddiriedolaethau Cymru ym Mawrth 2001 a chynhaliwyd gweithdai ym misoedd Mai a Mehefin y flwyddyn honno. Ar Fedi 2001, y dyddiad cymharol a ddewiswyd gan NAO, roedd yr Ymddiriedolaeth yn un o’r pymtheg corff iechyd yng Nghymru oedd wrthi’n datblygu eu strategaeth ystâd.

Yn Rhagfyr 2001 anfonwyd strategaeth gymeradwy’r Ymddiriedolaeth i’r Cynulliad Cenedlaethol gan gwrdd â’r dyddiad targed ar gyfer ei chyflwyno.

Mae dogfen y strategaeth yn amlinellu anghenion a newidiadau strategol tymor canol (2001-2006) yr ystâd er mwyn i’r Ymddiriedolaeth allu cwrdd â’i phrif amcanion i:

- gyflwyno ei gwasanaethau clinigol mewn amgylchedd diogel a phwrpasol
- darparu cynllun i newid
- darparu cyd-destun strategol ar gyfer datblygu cynlluniau buddsoddi cyfalaf
- dangos bod gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau pendant i wella gwasanaethau a chyfleusterau

Mae’r pwynt olaf yn dechrau datblygu’r cysylltiadau rhwng datblygu ystâd a strategaethau gwasanaeth gofal iechyd. Mae hyn yn allweddol ar gyfer gwneud yn si´r fod yr ystâd yn cael ei ddiffinio gan anghenion pobl am wasanaethau gofal iechyd sef un o amcanion

polisi rheoli ystâd y Cynulliad.

Hefyd, mae dogfen y strategaeth yn cynnwys rhagor o arfer da drwy ddynodi cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol yr ystâd fydd yn helpu'r Ymddiriedolaeth i fonitro cynnydd tuag at gyrraedd ei phrif amcanion.

**4.0 Gwybodaeth ar gyfer asesu perfformiad rheolaeth ystâd**

Mae gan yr Ymddiriedolaeth (a'i rhagflaenwyr) gefndir sicr o feincnodi a buont yn aelodau o System Meincnodi Consortiwm Cyfleusterau Gofal Iechyd ers 1996. Cynhyrchwyd data perfformio swyddogaethau Ystadau a Chyfleusterau am y saith mlynedd diwethaf a'u meincodi yn erbyn data monitro perfformiad Casgliad Gwybodaeth Cofnodion Ystadau (ERIC) a gynhyrchwyd yn Lloegr. Mae'n galonogol nodi y dechreuir defnyddio ERIC yng Nghymru o Ebrill 2002.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi cyflwyno system rheoli perfformiad i'r GIG yng Nghymru a bu'n cymryd rhan weithgar yn Nhîm Gweithredu System Rheoli Perfformiad Ystadau gyda chynrychiolwyr o Ystadau Iechyd Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Maes y mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio ei ddatblygu yw'r adrodd mewnol effeithiol am y data cymharol sydd ar gael. Yn unol ag Ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru mae angen unioni'r dull cyfredol o adrodd.

**5.0 Rheolaeth gyffredinol**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflogi Swyddog Adeiladau ac Eiddo sydd â chyfrifoldeb arbennig dros reoli holl faterion eiddo. Mae hyn yn cynnwys perthynas rhwng landlord a thenant, incwm rhenti, prisiadau eiddo, daliadaeth ayb. Mae'r Swyddfa Eiddo hefyd yn gyfrifol am reolaeth weithredol gweithredoedd canolog yr Ymddiriedolaeth a chofrestr dogfennau sy'n ymwneud ag eiddo. Dim ond gan yr Ymddiriedolaeth ac un arall o'r ymddiriedolaethau yr ymwelwyd â hwy yr oedd system i reoli eu cofnodion perchenogaeth.

Er mwyn diogelu ei hawliau mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu cytundebau trwyddedu gyda Meddygfeydd Teulu. Mae'r rhain yn weithredol lle bo'r Ymddiriedolaeth yn denant mewn adeilad o eiddo meddyg teulu a hefyd lle bo meddygon teulu'n denantiaid mewn adeiladau o eiddo'r Ymddiriedolaeth. Mae gan yr Ymddiriedolaeth brydlesi er mwyn rheoli'r berthynas rhwng landlordiaid a thenantiaid eraill.

**6.0 Perfformiad yr Ystâd**

Mae Ymddiriedolaeth Gogledd Orllewin Cymru'n ymwybodol iawn o'i chyfrifoldeb yngln a chynnal ystâd sy'n addas i'w phwrpas ac sy'n ddiogel. Oherwydd y gystadleuaeth sydd am refeniw a chyfalaf mae'r Ymddiriedolaeth, yn unol â phob corff iechyd arall wedi gorfod gwneud penderfyniadau caled a rhoi'r gwaith a wnaethpwyd yn nhrefn blaenoriaeth. Gyda phob corff yn penderfynu drosto'i hun, ceir gwahaniaethau o ran y safonau a gyrhaeddwyd ac mae'r rhain yn amlwg o'r cymariaethau a ddangosir yn yr adroddiad.

Yng Ngogledd Orllewin Cymru rydym wedi cydnabod yn llawn ein rhwymedigaethau cyfreithiol i gydymffurfio ag amodau statudol a gwaith Firecode. Rhoddwyd blaenoriaeth gan yr Ymddiriedolaeth i'r maes yma ac wedyn i gyflwr ffisegol yr adeilad. Dangosir y blaenoriaethau yma'n amlwg yn y safonau a gyrhaeddwyd gennym, yn yr un modd â'r pwyslais a roddwyd gennym ar reoli ynni.

6.1 Cyflwr statudol

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud arolwg o'i hystâd gyfan o ran cyflwr statudol ac wedi adrodd cyfradd cydymffurfio o 78% o ran cwrdd â safonau cyflwr A a B. Roedd hyn yn cymharu â chyfartaledd cyfradd cydymffurfio o 45% â'r safon yma. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei pherfformiad ers hynny ac erbyn hyn mae ganddi gyfradd cydymffurfio o 81% gyda'r 19% sy'n weddill yng nghategori C.

Mae llawer o'r perfformiad ardderchog yma'n dilyn buddsoddi sylweddol yng ngwaith Firecode. Dros y chwe blynedd diwethaf mae'r Ymddiriedolaeth a'i rhagflaenwyr wedi gwario £3.7 miliwn ar waith Firecode a chynlluniwyd buddsoddi £1.8 miliwn eto. Disgwylir y bydd yr ystâd, gyda mân eithriadau, yn cydymffurfio'n llawn (safonau cyfredol) erbyn Ebrill 2003. Yr eithriadau yw'r safleoedd hynny y bwriedir eu cau neu leihau'r defnydd ohonynt.

Fel bo safonau'n parhau i ddatblygu sylweddolir yr angen i arolygu'r sefyllfa ac ar hyn o bryd mae gan yr Ymddiriedolaeth arolygon eiddo sy'n ymwneud â'r meysydd canlynol:

- **Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd**

Asesiad o gyfleusterau mynediad a gwasanaethau safleoedd

Dyddiad gweithredu: Arolwg Cyntaf ac asesiad Mawrth 2002

**- Arolwg Amgylcheddol**

Asesiad o systemau, arferion a chyfleusterau cyfredol

Dyddiad gweithredu: Arolwg ac adroddiad erbyn Mawrth 2002

- **Systemau D´r a rheoli Legionella**
- **Cofrestrau Asbestos**
- **Systemau trydanol**

-

6.2 Cyflwr ffisegol

Mae cynnal cyflwr ffisegol yr ystâd yn her fawr. Yn ôl yr adroddiad mae cyflwr ffisegol ystâd yr Ymddiriedolaeth yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer holl ymddiriedolaethau Cymru. Seiliwyd hyn ar adroddiad ar 82% a arolygwyd (cyfartaledd 77%) sydd wedi ei wella'n awr i arolygu'r ystâd gyfan. Mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd weithdrefnau i ddiweddaru'r wybodaeth yn gyson wrth i waith gael ei wneud neu wrth i broblemau gael eu nodi.

Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod gofyn buddsoddi £14.6 miliwn i ddod â chyflwr ffisegol ystâd yr Ymddiriedolaeth i Radd B, swm sydd, er yn sylweddol, o fewn yr ystod canolig i ymddiriedolaethau. Mae cyfran fawr o'r swm yma oherwydd rhwd y pibellau copr yn y system d´r oer a phoeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae natur y broblem a'r ffaith ei bod wedi lledaenu drwy'r ysbyty yn golygu y bydd rhaid adleoli cyfleusterau er mwyn gwneud y gwaith adferol. Amcangyfrifir mai £8-10 miliwn fydd cyfanswm cost cywiro'r broblem a gwneir cais am arian oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar wahân i'r pibellau copr, mae'r broblem gyffredinol o waith cynnal a chadw wedi cronni yn cael sylw drwy gyfuniad o ysbytai newydd, uwchraddio a buddsoddi cyfalaf penodol. Fodd bynnag, oherwydd pwysau ariannol cyffredinol, mwy a mwy o faterion cydymffurfio statudol a'r defnydd trwm cynyddol o gyfleusterau mae'n anodd sicrhau bod lefel y gwariant ar gynnal a chadw adeiladau yn ddigon i atal dirywiad cyffredinol y stoc adeiladau. Fodd bynnag, bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i adolygu ei blaenoriaethau a chlustnodi arian yn briodol.

6.3 Addasrwydd Ymarferol

Gwnaethpwyd yr arolwg cyffredinol diwethaf o eiddo'r Ymddiriedolaeth o ran addasrwydd ymarferol yn 1993. Ers hynny gwnaethpwyd llawer o waith uwchraddio a datblygu:

- adeiladu ysbyty cymuned newydd
- rhoi cyfleusterau yn lle'r hen ysbyty mamolaeth ar safle'r prif ysbyty
- darparu uned gadarn ganolig

Diweddarwyd y gwaith arolygu gwreiddiol yn sgîl newidiadau. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn sylweddoli gwerth dadansoddiad cyfoes o addasrwydd ymarferol a'i bwysigrwydd o ran darparu gwybodaeth ar gyfer cynllunio'r ystâd a sicrhau'r amcan strategol o gyflwyno gwasanaethau clinigol mewn amgylchedd diogel a phwrpasol.

Er mwyn sicrhau cywirdeb ei gwybodaeth bwriad yr Ymddiriedolaeth yw comisiynu arolwg ymarferol ar gyfer pob ysbyty yn 2002-2003. Defnyddir y data a gesglir o'r arolwg yma, ynghyd â chanlyniadau gwaith y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd i arolygu:

- effeithiolrwydd yr ystâd o ran cefnogi'r gwasanaethau a gyflwynir
- y cynlluniau a ddatblygir ar gyfer buddsoddi cyfalaf er mwyn gwella addasrwydd yr ystâd i'w phwrpas.

-

6.4 Defnyddio'r Ystâd

O ganlyniad i arolygon o ddefnydd o le a wnaethpwyd gan yr Ymddiriedolaeth nodwyd nifer o leoedd sy'n cael eu defnyddio rhy ychydig ac y llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i wneud defnydd gwell ohonynt.

Enghraifft o hyn yw ein bod wrthi'n ymgynghori â'r cyhoedd yngl¶n â chynlluniau i adolygu'r gwasanaethau yn Ysbyty Bryn Beryl a Chlinig Ffordd yr Ala ym Mhwllheli, yr un ohonynt yn cyflawni anghenion iechyd lleol ar hyn o bryd.

Bydd y cynlluniau arfaethedig, sydd wedi eu seilio ar angen a ddynodwyd yn lleol ac sy'n unol â Chynllun Gwella Iechyd Gogledd Cymru a Chynlluniau Gweithredol yr Awdurdod Iechyd a'r Ymddiriedolaeth yn:

- Galluogi darparu holl wasanaethau craidd Ysbyty Cymuned i drigolion ardal Pwllheli,
- Datblygu uned pelydr-x newydd yn Ysbyty Bryn Beryl,
- Cadw darpariaeth gwasanaethau trin cleifion allanol, a mynediad atynt, mewn lleoliad canolog ym Mhwllheli,
- Cefnogi'r nod strategol o wella amseroedd aros i holl gleifion yr Ymddiriedolaeth drwy gynyddu'r gallu i gynnal Clinigau Cleifion Allanol Ymgynghorwyr mewn safleoedd yn y gymuned.
- Cynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygu'r defnydd o delemeddygaeth i gefnogi gofal a thriniaeth

Dyma ganlyniadau'r arolwg diweddaraf o ddefnydd ar gyfer yr Ymddiriedolaeth:

| **Categori** | **Disgrifiad** | **GOCymru*** | **Cyfartaledd yn ôl adroddiad*** |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwag | 1 | 3 |
| 2 | Defnydd rhy ychydig | 15 | 20 |
| 3 | Digonol | 76 | 67 |
| 4 | Gorlawn | 8 | 10 |

* Canran o'r ystâd a arolygwyd.

Mae mwyafrif y lleoedd sy'n wag yn yr Ymddiriedolaeth ac sy'n cael eu defnyddio rhy ychydig yn gysylltiedig â safle Bryn-y-Neuadd sy'n cynnwys Adeilad Preswyl Anabledd Dysgu. Mae'r trigolion yn cael eu hadsefydlu fwyfwy yn y gymuned fel rhan o raglen chwe blynedd. Yn amlwg mae'r ailsefydlu'n effeithio ar y modd y gellir defnyddio'r safle yn y cyfamser ond yn y pen draw bydd hyn yn arwain at gyfuno gwasanaethau yng nghanol y safle ac ystyried cael gwared â gweddill y safle.

6.5 <u>Perfformiad Ynni</u>

Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro ac yn adolygu perfformiad yr ystâd o ran defnyddio

ynni a d´r. Mae'r broses hon yn cael ei hwyluso drwy ddefnyddio meddalwedd monitro a thargedu ynni o'r enw TEAM.

Ar hyn o bryd dangosydd perfformiad yr Ymddiriedolaeth yw 61GJ i bob 100 medr ciwbig sy'n braf o fewn yr ystod targed 55-65 a osodwyd ar gyfer adeiladau presennol. Yn ôl ffigyrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ystadau Iechyd Cymru mae perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn ail orau yng Nghymru.

Fodd bynnag, gosodwyd targed pellach gan y Llywodraeth Ganolog:

- Lleihad o 15% mewn defnyddio ynni gwreiddiol o Ebrill 2000 i 2010.

Mae hyn yn angenrheidiol ar yr un adeg â lleihad o 20% mewn allyriant diocsid carbon a chefndir o bwysau cynyddol ar leihau ynni gwreiddiol oherwydd defnydd cynyddol o drydan gan dechnoleg newydd a systemau oeri. Mae'n ddiddorol nodi y bu cynnydd cyson ers 1994-95 yn y defnydd o drydan gan wyrdroi i bob pwrpas y duedd i leihau ynni gwreiddiol. Yn ôl ymchwil mae modd cysylltu llawer o'r defnydd cynyddol gyda'r defnydd cynyddol o gyfrifiaduron ac offer cysylltiedig. Yn Ymddiriedolaeth Gogledd Orllewin Cymru gwelwyd y nifer o gyfrifiaduron sy'n cael eu defnyddio yn cynyddu o tua 300 yn 1994-95 i 4000 erbyn hyn.

Er mwyn cyrraedd y targed ynni gwreiddiol bydd rhaid i'r Ymddiriedolaeth leihau ei defnydd o ynni i tua 55GJ i bob 100 medr ciwbig. Bydd yn gwneud hyn drwy gyfuniad o gau ysbytai ac ysbytai newydd, arolwg o systemau adeiladu, a gwella a moderneiddio rheolyddion a ffynonellau ynni. Bydd lleoedd y mae angen eu gwella'n cael eu dynodi o archwiliadau ynni ar adeiladau gwael eu perfformiad h.y. y rhai hynny yng nghategori C.

Cyflwynwyd y Dreth Rheoli Hinsawdd (CCL) yn Ebrill 2001 gan godi tâl am bob cilowat-awr o ynni a ddefnyddir. Mae trydan sy'n cael ei greu gan gyfuniad o unedau o wres a phwer yn gostwng y defnydd o ynni gwreiddiol ac os yw'r uned CHP wedi ei dilysu o dan raglen sicrhau ansawdd CHP ni chodir y CCL. Mae'r uned CHP ar safle prif ysbyty'r Ymddiriedolaeth wedi ei dilysu.

**7.0 Y ffordd ymlaen**

Yn y meysydd hynny lle mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei chydnabod fel perfformiwr

da’n barod byddwn yn parhau i arolygu gweithgareddau a newid gweithdrefnau fel bo angen er mwyn dilyn anghenion statudol a rhai’r gwasanaeth.

Mewn meysydd eraill bydd yr Ymddiriedolaeth yn ceisio datblygu rheolaeth ei hystâd gan roi sylw arbennig i:

- Gomisiynu arolwg ymarferol ar gyfer safle pob ysbyty yn 2002-2003

- Cynnal yr arolygon a fwriadwyd o ran

  Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

  Amgylchedd

  Systemau D´r a rheoli Legionella

  Cofrestrau asbestos

  Systemau trydanol

- Cryfhau ymhellach y cysylltiadau rhwng strategaethau gwasanaeth gofal iechyd a datblygu ystâd
- Adrodd gwell ar ddata sydd ar gael yn arbennig ar sail Cymru gyfan.

Mae’r Ymddiriedolaeth yn sylweddoli’r angen i ddefnyddio asedau gwerthfawr ei hystâd fel adnodd deinamig a chyrraedd targedau Gwella Iechyd yng Nghymru drwy ddarparu:

- ansawdd ac addasrwydd amgylchedd adeiladau a gwasanaethau cefnogi
- cyfleusterau addas i gwrdd â’r gallu i ddarparu gwasanaeth clinigol a modelau newydd gofal clinigol
- cyfleusterau a mwynderau digonol i staff

Er mwyn gwneud hyn byddwn yn parhau i ddatblygu’n Strategaeth Ystadau er mwyn sicrhau ei fod yn parhau o dan arweiniad y gwasanaeth, yn cefnogi amcanion y gwasanaeth ac yn rhan o strategaeth iechyd integredig.